



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Ionawr 2022 am 6.00yh yn rhithiol mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 January 2022 at 6.00pm virtually in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Debra Griffiths, (**yn y gadair** / in the chair), Trystan Phillips, Clive Davies, John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, Richard Jones, Morvenna Richards, Shan Williams, Steffan Morgan, Siân Maehrlein, Yvonne O'Neill a/and Elaine Evans (**wedi cael materion technegol yn ystod y cyfarfod**/had technical issues during the meeting) Llinos Haf Jones (**Cyfieithydd** / Translator) Michael Lewis (Tivyside), Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng Debra Griffiths, bawb i gyfarfod cyntaf y Flwyddyn Newydd. Cydymdeimlodd gyda theulu'r Cyng Siân Maehrlein yn eu profedigaeth ddiweddar.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Debra Griffiths, welcomed everyone to the first meeting of the New Year. Cllr Griffiths offered the council's condolences to the family of Cllr Siân Maehrlein in their recent bereavement.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd. Dim absenoldebau.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.
No absences.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr John Adams-Lewis	Materion Cynllunio / Planning Matters
--------------------------------	---------------------------------------

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 7 Rhagfyr 2021.

Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 7 Rhagfyr yn gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 7 December 2021.

The Councillors proposed that the 2 November council minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021.

Mae'r anfonebau prydles blynyddol wedi'u hanfon ymlaen at y Clwb Rygbi a'r Clwb Bowlio.

Mae gwahoddiadau i dendro am ailosod a gosod ffensys newydd ar gyfer ardal chwarae Brenin Siôr V wedi ei anfon allan eto.

Mae John Morris wedi cytuno i dorri'r porfa ychwanegol yn parc Brenin Siôr V y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano a rhoddwyd rhybudd i DE Owen a'i Fab nad oes angen eu gwasanaethau mwyach.

Bydd y Cyng Shan Williams a Richard Jones yn cynnal yr ymchwiliad lwybr papur ariannol ddydd Llun 10 Ionawr am 1yp.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 2 November 2021.

The annual lease invoices have been forwarded to the Rugby Club and the Bowling club.

Invitations to tender for replacing and inserting new fences for King George V play area have been resent.

John Morris has agreed to cut the additional area of grass at King George V that the council is responsible for and notice has been given to DE Owen & Sons that their services are no longer required.

Cllrs Shan Williams and Richard Jones will conduct the financial paper trail investigation on Monday 10 January at 1.00pm.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahrad.

Ni ddatganwyd unrhyw eitemau.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

Nothing to note.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A211068	Adam Harvey Contracting Ltd, 38 Y	<i>Codi annedd a charport / Erection of a dwelling and carport.</i>	<i>Mae cynghorwyr yn cefnogi'r cais os glynir wrth yr amodau argymelledig o'r adran Briffyrdd</i>

	Rhos, Aberteifi SA43 1NJ		<i>a Dŵr Cymru /Councillors</i> support the planning application if the recommended conditions from Highways and Welsh Water are adhered to.
--	-----------------------------	--	--

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhify Siec Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
1/1/22	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office Band Lydan / Broadband</i>	A9 A20	D/D 5154	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00)
5/1/22	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Rhagfyr/December)</i>	A5	5155	£1181.24 (0.00)
5/1/22	<i>Bachan Deche / Handyperson (Tachwedd/November)</i>	A19	5156	£115.20(19.20)
17/12/21	<i>Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service</i>	A18	5157	£52.50(0.00)
09/12/21	<i>Sharp – Ffioedd lluncopio / Photocopying Fees</i>	A7	5158	£77.64(12.94)
17/12/21	<i>GoboPlus.Com – Christmas Grinch</i>	B1	5159	£42.60(7.10)
5/1/22	<i>HMRC – Hydref, Tachwedd, Rhagfyr / Oct, Nov and Dec</i>	A16	5161	£548.22(0.00)
27/12/21	<i>Siemens – Lease rental photocopier</i>	A7	D/D	£150.00(25.00)
5/1/21	<i>Justin Percival – Trydan am goleuadau Nadolig</i>	B1	5160	£50.00(0.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.
The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

11/10/2021	Lloyds Bank: <i>Llog / Interest</i>	£0.35
29/10/2021	<i>Praesept 3 / Precept 3</i>	£27,998.49
09/11/2021	Lloyds Bank: <i>Llog / Interest</i>	£0.28
09/12/2021	Grant CAVO	£500.00
09/12/2021	Lloyds Bank: <i>Llog / Interest</i>	£0.38

b) Adroddiad Ariannol hyd at 31 Rhagfyr 2021 / Financial Report to 31 December 2021. Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr.

The report has been forwarded beforehand to all councillors.

**Cytunodd y Cyngor i gymeradwyo'r adroddiad ariannol uchod / The council agreed to
approve the above financial report.**

c) **Gohebiaeth / Correspondence**

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
316	Ms S Jones – <i>Llythyr yn mynegi cefnogaeth i'r cais cynllunio Home Bargains / Letter expressing support for the Home Bargains planning application.</i>	<i>Nododd y cynghorwyr y gefnogaeth i gais cynllunio Home Bargains / The support for the Home Bargains planning application was noted by the councillors.</i>
317	Andrew Jones: <i>Is-adran Tir, Adran Tai ac Adfywio/ Llywodraeth Cymru / Land Division, Housing & Regeneration Directorate, Welsh Government.</i>	<i>Gyhoeddiadau Polisi'r Gweinidog yng Nghynadledd Genedlaethol Cymdeithas Prynu Gorfodol Cymru 2021 / Policy Announcements at the Compulsory Purchase Association (CPA) Wales National Conference 2021.</i>
318	Lowri Edwards: <i>Dirprwy Swyddog Canlyniadau, CSC / Deputy Returning Officer, CCC.</i>	<i>Llythyr oddi wrth y Swyddog Canlyniadau i Cynghorau Tref a Chymuned / Letter from the Returning Officer for Town and Community Councils.</i>
319	Eifion Jones: <i>Swyddog Llwybrau Cyhoeddus, CSC / Public Rights of Way Officer, CCC.</i>	<i>Penodi Aelodau i Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion / Appointments to the Local Access Forum.</i>
320	<i>Cylchlythyr Mis Rhagfyr CIC Hywel Dda.</i> Hywel Dda CHC December Newsletter.	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 13/12/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/12/2021.
321	Rev John Bennett – <i>Gwahoddiad i wasanaeth Carolau yn Eglwys y Tref / Invitation to the town Carol service.</i>	<i>Cymerodd y Maer ran a mynychodd rhai Cynghorwyr / The Mayor took part and some councillors attended.</i>
322	Dr Nerys Owens – <i>Is-Adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru / Social Research and Information Division, Knowledge and Analytical Services, Welsh Government.</i>	<i>Dau adroddiad ar Gydabyddiaeth ariannol i gynhorwyr ac ymgysylltu â dinasyddion yng Nghymru 'sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru / Two reports on Councillor remuneration and citizen engagement in Wales' that are published on the Welsh Government website.</i>
323	Jane Hutt AS/MS: <i>Gohebiaeth gan Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru / Correspondence from the Minister for Social Justice, Welsh Government.</i>	<i>Cynghorau Tref a Chymuned - Llunio Dyfodol Cymru / Town and Community Councils - Shaping Wales Future.</i>
324	David Garside – <i>Is-adran Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru / Sustainable Futures Division, Welsh Government.</i>	<i>Rhaglen Llunio Dyfodol Cymru / Shaping Wales Future – National Stakeholder Forum.</i>
325	Leighton Jones – <i>Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, Democratiaeth Llywodraeth Leol / Secretariat to the Independent Remuneration Panel for Wales, Local Government Democracy.</i>	<i>Hysbysiad am Caedirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol / Advertisement for the Chair to the Independent Remuneration Panel for Wales.</i>
326	<i>Comisiwn Ffiniau i Gymru / Bounary Commission for Wales.</i>	<i>Cyhoeddi Cynrychiolaethau / Representations published.</i>
327	Rob Starr – <i>Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil, Polisi a Pherfformiad, CSC / Performance Research Manager, Policy and Performance, CCC.</i>	<i>Ymgynghoriad ar yr Asesiad Ceredigion o Lesiant Lleol drafft / Consultation on the Ceredigion Draft Assessment of Local Well-being.</i>
328	<i>Economi ac Adfywio CSC / Economy and Regeneration CCC: Ardaloedd Cadwraeth Aberteifi, Hysbysiad an waith coed, Eglwys Santes Fair, Aberteifi / Cardigan Conservation Area, tree works notification, St Mary's Church, Cardigan.</i>	<i>Clerc i hysbysu CSC bod cynghorwyr yn deall bod angen tynnu'r ddwy goeden. Gofynnodd y Cyng Morvenna Richards am nodi ei bod yn gwrthwynebu'r gwaith coed/ Clerk to inform CCC that councillors understood that the removal of both trees is necessary. Cllr Morvenna Richards requested it be noted that she opposed the tree works.</i>
329	<i>Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd / Police and Crime Commissioner's Office:</i>	<i>Cynllun Heddlu a Throsedd 2021 – 2025. Police and Crime Plan 2021 – 2025.</i>
330	Ruth Leggett – <i>Pennaeth Ymgysylltu Strategol a Chyfathrebu, Trysorlys Cymru / Head of Strategic Engagement and Communications, Welsh Treasury.</i>	<i>Cyllideb ddrafft 2022-23 Llywodraeth Cymru / Welsh Government draft budget 2022-23.</i>

d) **Creu Cynllun Gweithredu Blynyddol / Creating an Annual Action Plan.**
Ni wnaed unrhyw ychwanegiadau / No additions were made.

e) **Cytundeb Ar Dy Feic.**

Ar ôl peth trafodaeth cytunwyd bod y lleoliad cymeradwy yn addas, a bod y contract drafft yn addas at y diben. Cytunodd cynghorwyr i fonitro effaith gosod y beiciau ym Mharc Fictoria, a thargedu materion a allai codi wrth iddynt ddigwydd. Roedd cynghorwyr yn dymuno holi faint y rhagwelir bydd y costau cynnal a chadw.

Ar Dy Feic Contract.

After some discussion it was agreed that the approved location was suitable, and the draft contract fit for purpose. Councillors agreed to monitor the impact of the bikes being placed in Victoria Park, and to target issues that may arise as they occur. Councillors wished to enquire how much the upkeep costs are predicted to be.

9. **Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only.**

a) **Y Cyng Morvenna Richards: Adborth ar digwyddiadau Anabledd Cymru – mynediad i gwleidyddiaeth.**

Rhoddodd y Cyng Richards ddisgrifiad byr o rôl Anabledd Cymru a rhoddodd gyflwyniad llafar ac ysgrifenedig ar fodolau meddygol a chymdeithasol anabledd. Rhannwyd dolen i ffilm fer gyda'r cynghorwyr -

[#DisabilityWales presents: UnlockedLives - The Film - YouTube](#)
[disability wales website - Bing](#)

Penderfynwyd sefydlu Is-bwyllgor Anabledd i gadw pob mater sy'n effeithio ar yr anabl ar flaen waith y cyngor.

Cllr Morvenna Richards: Feedback on the Disability Wales Access to Politics Events.

Cllr Richards gave a brief description on the role of Disability Wales and gave a verbal and written presentation on the medical and social models of disability. A link to a short film was shared with the councillors -

[#DisabilityWales presents: UnlockedLives - The Film - YouTube](#)
[disability wales website - Bing](#)

It was resolved to set up a Disability Sub-Committee to keep all issues affecting the disabled at the forefront of all council work.

b) **Dyddiadur y Maer**

Y FFENEST NADOLIG MWYAF DENIADOL – Roedd yn benderfyniad anodd iawn i ddewis enillwyr ar gyfer y wobr hon a gafodd ei herio'n eiddgar. Ond, ar ôl llawer o drafod, dyfarwyd y Ffenest Nadolig Mwyaf Deniadol am 2021 i Florist on the Farm, Pendre, a'r wobrau gyda chymeradwyaeth yn cael eu rhoi i Tŷ Custom, Heol Santes Fair, a siop trin gwallt Roots, Heol y Priordy.

GWASANAETH CAROLAU EGLWYS Y SANTES FAIR – Roedd yn anrhydedd darllen yn y gwasanaeth carolau a oedd yn wasanaeth hyfryd i'n hatgoffa o bwysigrwydd negeseuon Cristnogol adeg y geni.

CINIWAU NADOLIG – Diolch i'r Cyng Catrin Miles, Graham Evans a Morvenna Richards a gynorthwyodd i ddsbarthu ciniawau Nadolig am ddim i'r rhai llai abl yn ein cymuned.

Diolch hefyd i Caffi Emlyn, Tanygroes, am baratoi'r ciniawau 2 gwrs blasus, i CAVO a gymeradwyodd grant i ariannu'r prosiect a fy merch Angharad am ymuno â mi ar Ddydd Nadolig.

Mayors' Diary

BEST DRESSED CHRISTMAS WINDOW COMPETITION – It was a very difficult decision to select winners for this eagerly contested prize. But, after a lot of deliberation the Best Dressed Window for 2021 was awarded to Florist on the Farm, Pendre, with the Highly Commended awards being given to Ty Custom, St Mary Street and Roots Hairdressers, Priory Street.

ST MARY'S CHURCH CAROL SERVICE – It was an honour to read at the well-attended carol service which was a lovely service reminding us of the importance of Christian messages at the time of the nativity.

CHRISTMAS DINNERS – Thank you to Cllrs Catrin Miles, Graham Evans and Morvenna Richards who assisted me to deliver free Christmas dinners to the less able in our community. Thank you to Caffi Emlyn, Tanygroes for preparing the delicious 2 course dinners, to CAVO who approved a grant to finance the project and my daughter Angharad for joining me on the rounds on Christmas Day.

c) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors

Y Cyng Catrin Miles Ward Teifi

COVID: cynnydd yn yr amrywiolyn Omicron ers y cyfarfod olaf, yn enwedig dros y Nadolig, a ffigyrau Ceredigion lan i 1,587/100,000. Pob Graddfa MSOA yn uwch na 1,000 ond Aberteifi/Aberporth yr isaf yng Ngheredigion: 1,081/100k. Dyw Omicron ddim mor ddifrifol a'r amrywiolyn Delta, o ran bobl yn gorfod mynd i'r ysbyty, ond mae'n bwysig bod pawb yn ymateb i'r gwahoddiad i gael y booster. Mae hyn yn gwneud byd o wahaniaeth o ran ffrwyno ymlediad y feirws.

YSGOLION: 2 ddiwrnod Cynllunio i staff ysgolion yfory a dydd Iau. Dydd Gwener, bydd y Hybiau ar agor i blant bregus, plant gweithwyr allweddol, blwyddyn 11 & 13, Unedau Cyfeirio ac i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Pawb arall yn cael eu dysgu'n rhithiol dydd Gwener, ac ysgolion yn sicrhau bod digon o ddeunydd diogelwch ganddynt ar gyfer agor wyneb yn wyneb dydd Llun 10 Ionawr.

Cllr Catrin Miles Teifi Ward

COVID : marked increase in cases – particularly the Omicron variant – since the last meeting, particularly over the Christmas period. Ceredigion rate today is 1,587 per 100,000. Each MSOA figure exceeds 1,000 per 100,000 but Cardigan/Aberporth is the lowest rate in Ceredigion at 1,081/100k/ The Omicron variant's not quite as virulent as Delta, from the point of view of hospital admissions but it's still vital that everyone responds to their invitation to have a booster. This can make a huge difference to the spread of the virus.

SCHOOLS: Tomorrow and Thursday will be 2 Planning Days for Ceredigion schools. Friday 7th Jane, HUBS will be open for vulnerable pupils, for the children of Key Workers, PRU pupils and those with Additional Learning Needs as well as years 11 & 13 who are preparing for assessments or exams this summer (still to be decided). All other pupils will be taught remotely this Friday and schools will use this day also to stock-up on necessary equipment (masks, visors etc) to ensure a secure opening for face-to-face teaching Monday 10th January.

Y Cyng John Adams-Lewis Ward Mwldan

Ni chyflwynwyd adroddiad.

Cllr John Adams-Lewis Mwldan ward

No report submitted.

Y Cyng Elaine Evan Ward Rhyd-y-fuwch

Ni chyflwynwyd adroddiad.

Cllr Elaine Evans Rhyd-y-fuwch Ward

No report submitted.

d) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report

i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area**

Mae'r twmpath gwifren sip bellach ar agor ac wedi'i orffen yn dda iawn ac yn profi i fod yn boblogaidd iawn gyda defnyddwyr y parc.

The zip wire mound is now open and very well finished and proving to be a very big hit with the park users.

ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**

Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.

iii. **Maes Sgrialu /Skateboard Park**

Dim byd o bwys i'w gofnodi /Nothing of note to record.

iv. **Cyffredinol / General**

Mae cael gwared ar y graffiti ar y Bandstand yng Ngerddi Fictoria wedi bod yn aflwyddiannus, yr ateb gorau fydd ail-baentio'r holl baneli y tu mewn a'r tu allan.

Mae potiau planhigion y dref wei'u gorffen ac mae 20 twb arall, yn llawn cennin pedr a tiwlipau, yn barod i fynd i'r dref ddiwedd mis Chwefror.

Removing the graffiti on the Bandstand at Victoria Gardens has proved to be unsuccessful, the best solution will be to repaint all the panels inside and out.

The town planters have been finished and there are a further 20 tubs, full of daffodils and tulips, ready to be delivered to town at the end of February.

10. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei chadwyn.

Quarterly statement by the Mayor regarding safeguarding chain of office.

Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

11. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf

Items for the next Agenda

Ffens ar gwaelod Broteifi / Fence at the bottom of Broteifi.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.10yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 7.10pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date